Archifdy Ceredigion Cylchlythyr
Gaeaf 2001

Hoffwn ddechrau drwy ymddiheuro. Dechreuwyd Cylchlythyr yr Archifdy ym 1998 gan ein bod yn gwybod bod gan bobl a oedd yn defnyddio'r swyddfa ddiddordeb mewn dysgu rhagor ynglŷn â'n casgliadau a'n dulliau. Nid ydym wedi llwyddo mor belled i gynhyrchu un cylchlythyr ym 2001, ac felly mae 'arnom' o leiaf ddau gopi arall i bawb sydd wedi talu'r swm blynyddol o £4.00. Mae'n ddrwg iawn gennym felly i ni fethu â chynhyrchu cylchlythyr gwanwyn a gaeaf, yn enwedig gan ein bod yn mwynhau eu hysgrifennu.

Mae crynodeb cyflym o 2001 yn dangos bod y tri aelod o staff wedi bod mor brysur ag erioed. Ni chafwyd dechrau addawol iawn i'r flwyddyn – roedd Helen yn sâl, a chafodd wythnos i ffwrdd o'r gwaith – ac yn ystod yr amser hwnnw byddai wedi cyflwyno tair sgwrs. Bu Richard Ireland o Adran y Gyfraith Aberystwyth yn garedig iawn yn camu i mewn a chyflwynodd bapur ar droseddoldeb yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg i Sefydliad y Merched Waun Fawr, tra rhoddwyd y ddwy sgwrs arall yn hwyrach yn y flwyddyn. Ers hynny yr ydym wedi bod yn weddol iach ac yn gweithio yn galed i aros felly: nofio, ioga, llysiau ffres, fitaminau – beth bynnag yr enwch!

Ar ddiwedd yr haf rhoddwyd caniatâd i ni gyflogi archifydd am ychydig wythnosau er mwyn helpu i glirio'r gwaith sydd yn aros i'w wneud gyda'r casgliadau rhestru. Mae gweinyddiaeth o ddydd i ddydd yn y swyddfa yn golygu bod y dasg bwysig hon yn parhau heb ei wneud. Roedd Judith Stephenson, un o'r archifwyr sydd newydd dderbyn cymwysterau ar gwrs MSc Gweinyddiaeth Archifau ym Mhrifysgol Aberystwyth gyda ni am wyth wythnos, yn gweithio yn rhan amser(tra'n ceisio cwblhau ei thesis yr un pryd!), a llwyddodd i gatalogio 33 o adneuon. Yr ydym yn ddiolchgar i Judith am ei gwaith ardderchog, ac yn ddiolchgar i'r Cyngor Sir am ganiatáu i ni ei chyflogi. Ers i Judith adael yr ydym wedi cael nifer o adneuon pwysig gan gynnwys Casgliad yr Hafod; gobeithiwn y caiff rhywbeth ei wneud er mwyn hwyluso'r broses o gatalogio'r adneuon hyn fel eu bônt ar gael i'r cyhoedd cyn gynted â phosibl.

Yr ydym yn falch iawn croesawi nifer o weithwyr gwirfoddol i'r swyddfa yn ystod y flwyddyn; maent wedi cwblhau gwaith gwerthfawr yn diogelu dogfennau, gan ddefnyddio gorchuddion amddiffynnol a phocedi polyester er mwyn ei gwneud yn fwy diogel i drin y dogfennau, tacluso'r ystafell ymchwil, tynnu allan y dyblygiadau o'r casgliadau modern, a digidolu delweddau o gasgliadau cardiau post. Croesawir gwirfoddolwyr eraill bob amser.

Hyd yma eleni cafwyd 100 o ymchwilwyr ar gyfartaledd bob mis yn ymweld â'r swyddfa – rhif isel o'i gymharu â swyddfeydd cofnodion eraill, ond nid ydym erioed wedi bod yn brin o waith, gan ein bod hefyd yn delio ag ymholiadau o dros y byd (nifer ohonynt yn cyrraedd ar ffurf e-bost), gweinyddu'r system cofnodion modern, a'r amrywiol dasgau sydd yn gysylltiedig â diogelu a dogfennu'r casgliad o archifau. Yr ydym hefyd wedi ceisio cynnal proffil cyhoeddus drwy ein sgyrsiau a darlithoedd, a'r arddangosfeydd a gynhelir yn Swyddfa'r Sir a thu hwnt. Mae Glenys yn arbenigwraig ar gasglu'r defnydd ar gyfer arddangosfeydd – ac arddangoswyd rhai darnau bendigedig o hanes eleni.

Nid yw'n hawdd bob amser gwerthfawrogi'r gwaith caled sydd yn mynd i mewn i baratoi arddangosfa; wrth baratoi arddangosfa ar gyfer Ysgol Mynach ym mis Tachwedd darllenodd Glenys ei ffordd drwy holl lyfrau cofnodion yr ysgol, gan ymgolli yn hanes cymuned Pontarfynach. Cymaint oedd ei diddordeb fel pan ddarllenodd gofnod am farwolaeth hen ffrind a chymwynaswr â'r ysgol y darllenodd cymaint amdano, clywyd cri 'O na, mae Mr Lightfoot wedi marw!'' Y flwyddyn oedd 1931.

Ym mis Mawrth cawsom Hen Adeilad y Bad Achub ym Morfa Mawr, Aberystwyth ar gyfer storio rhai o'n cofnodion modern. Dyma'r cofnodion y mae'n rheidrwydd ar y Cyngor i'w cadw am gyfnod amser statudol, ac ar ôl hynny bydd nifer ohonynt yn cael eu rhoi o'r neilltu. Ni fydd archifau yn cael eu cadw yn Hen Adeilad y Bad Achub gan nad yw'r anheddau yn cydymffurfio â'r Safon Brydeinig ar gyfer storio archifau, ond cedwir y cofnodion modern o dan amgylchiadau priodol ac amddiffynnir hwy gan larwm tân a thresmaswyr. Meddyliom y byddai'r adeilad bach hyfryd yn cymryd sawl blwyddyn i'w lenwi: ymddengys yn fwy tebygol yn awr y bydd yn llawn erbyn Mawrth nesaf. Eleni byddwn wedi cymryd i mewn dros 530 troedfedd ciwbig o gofnodion modern – o'i gymharu â 30 troedfedd ciwbig y llynedd!

Mae angen i ni feddwl o ddifrif ynglŷn ag anheddau newydd ar gyfer y Gwasanaeth Archifau gan ein bod yn prysur dyfu'n rhy fawr i'r Swyddfa Sir – rhywbeth a bwysleisiwyd yn yr adroddiad a gynhyrchwyd gan y Comisiwn Llawysgrifau Hanesyddol yn sgil eu harchwiliad o'r swyddfa ym 1999. Tra'n ceisio gwneud popeth posibl i wneud y gwasanaeth archifau cystal ag unrhyw un arall yn y wlad, mae yna broblemau gyda safle a natur yr adeilad na ellir eu goresgyn. Croesawir awgrymiadau ynglŷn ag anheddau newydd posibl!

Ym mis Medi cynhaliwyd Cynhadledd Flynyddol Cymdeithas yr Archifwyr yn Aberystwyth, a llanwyd y dref yn sydyn gan nifer fawr o bobl archifol. Trefnodd Archifdy Ceredigion deithiau tywys (roedd archifwyr eraill yn meddwl bod ein hanheddau yn *ddiddorol)* ac arweiniodd Helen daith o gwmpas muriau'r dref yn y glaw, yn y tywyllwch. ''Pa furiau'r dref?' bydd nifer honoch yn holi. Yn union.

Rhestrir derbynion dethol newydd am y flwyddyn isod – yn ogystal mae gennym nifer o eitemau bychain eraill, sef cyfanswm o 69 o adneuon. Bydd gan ddarllenwyr ddiddordeb mewn gwybod bod gennym yn awr Indecs Claddu Sir Ceredigion 1813-1837 ar gyfer Cymdeithas Hanes Teuluol Ceredigion, sydd ar *microfiche*, a'r CD-Rom sydd yn cynnwys y fersiwn gyntaf o'r Indecs Claddu Cenedlaethol. Mae'r olaf hwn yn cynnwys Cymru a Lloegr rhwng y blynyddoedd 1538 a 2000. Tra nad yw yn gyflawn(bydd argraffiadau diweddarach yn cynnwys mwy) mae 5 miliwn (+) o gladdedigaethau wedi eu rhestru. Mae'n rhaid i mi hefyd sôn am y cyfrolau ardderchog o arysgrifennau a baratowyd gan E.L.ac M.A.James; ceir yn awr pedair cyfrol ar ddeg o arysgrifennau a gasglwyd o eglwysi, capeli a chofebau rhyfel, sydd yn darparu ffynhonnell fendigedig i deuluoedd a haneswyr lleol fel ei gilydd. Mae'r ardaloedd a gynhwysir yn hanner ddeheuol y sir, gan gynnwys Llandysul, Llandygwydd ac Aberporth, Aberaeron, Llanfihangel Ystrad a Llannarth, ac yng ngogledd y sir, sef hanner uchaf plwyf Llanbadarn Fawr. Ystyriwn y cyfrolau hyn yn hynod werthfawr yn ein gwaith ymchwil.

Cyfrifiad 1901

Hoffem atgoffa darllenwyr y bydd cyfrifiad 1901 ar gyfer Ceredigion ar gael yn y swyddfa gofnodion ar ficroffilm a *microfiche* o'r 2il o Ionawr 2002. Croesawn bob ymholiad ac ymweliad personol!

Staff 2001

Helen Palmer	Archifydd y Sir
Glenys McBurnie	Cynorthwy-ydd Archifau
Gwyneth Roberts	Cynorthwy-ydd Archifau
Judith Stephenson	Archifydd (dros dro) Awst-Hydref 2001

Hoffem hefyd gydnabod cymorth y gofalwyr yn Swyddfa'r Sir, Ray a Paul, sydd yn symud Pethau Trwm Iawn (megis cabinetau-mapiau) i ni, a'n glanhawyr sydd yn cadw'r ystafell ymchwil yn rhydd rhag Llwch yr Oesoedd!

Derbynion Dethol i'r swyddfa 2001

Yn ystod y flwyddyn derbyniom 69 o adneuon yn y swyddfa. Roedd rhai yn cynnwys ond un neu ddau o eitemau bychain, roedd eraill yn gasgliadau sylweddol. Mae'r cyfan yn bwysig i ni. Hoffwn ddiolch i bawb a roddodd adnau neu rodd i Archifdy Ceredigion eleni.

Adn. 1249	Casgliad Amgueddfa: eitemau ychwanegol gan gynnwys dwy gyfrol ''Rural Lore, Capel Seion c 1921-5'
Adn.1250	Ffeiliau o RAE Aberporth, yn ymwneud yn bennaf â thir ac eiddo yn ardal Aberporth
Adn 1251	Llyfr Cofnod Ysgol Brynherbert 1944-1979
Adn.1252	Llyfr Ymwelwyr ag Ystafelloedd Te Swyddfa'r Post Pontarfynach 1894-8
Adn. 1253	Cofnodion Cyngor Cymuned Llandyfriog 1974-1979
Adn 1257	Cyfrol o luniau a gymerwyd ar agoriad Ysgol newydd Penweddig yn Rhagfyr 2000
Adn 1261	Eitemau gan gynnwys tri llythyr Cymraeg o Dasmania 1878
Adn 1267	Dyddiaduron J.P.Rees, Llandisilio 1904-1958
Adn1268	Cofnodion Cyngor Cymuned Llanllwchaearn
Adn 1275	Fersiwn Cymraeg o ''Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith' o dan Ddeddf Ffatrïoedd a Gweithdai 1901 o Felin Dyffryn Llanilar
Adn 1281	Dyddiaduron J Edwards, Ruel Uchaf, Bow Street 1912-1940
Adn.1292	Cynlluniau ac argraff arlunydd o Neuadd y Dref Aberystwyth c.1960 gyda lluniau o hen Neuadd y Dref.
Adn 1298	Llythyron a anfonwyd at Sefydliad y Merched Talybont oddi wrth aelodau'r lluoedd arfog yn ystod yr ail ryfel byd.
Adn 1301	Gweithredoedd a dogfennau o Stâd yr Hafod 18fed-20fed ganrif
Adn 1303	Cofnodion CPRW, Ceredigion
Adn. 1304	Cofnodion pellach o Gymdeithas Geidiau Ceredigion

Sgyrsiau â chymdeithasau a sefydliadau a roddwyd ym 2001

Sefydliad y Merched Waun Fawr (RWI yn lle HP)
Merched y Wawr Mynach (GMcB)
Dosbarth Hanes Teuluol Castellnewydd Emlyn i ymweld â'r archifdy (HP)
Cymdeithas Llanon (GMcB)
Ymweliad myfyrwyr Coleg Ceredigion â'r archifdy (HP)
Grŵp Hanes Llanafan yn ymweld â'r archifdy (HP)
Cymdeithas Pont Sion Cwilt (HP)
Grŵp Hanes, DILS yn ymweld â'r archifdy (HP)
Sefydliad y Merched Capel Bangor (HP)
Sefydliad y Merched Cei Newydd (HP)
Sefydliad y Merched Waun Fawr yn ymweld â r archifdy (HP)
Myfyrwyr Rheoli Treftadaeth Coleg Prifysgol Cymru yn ymweld â'r archidfdy (HP)
Sefydliad y Merched Capel Rhydlewis (HP)
Sefydliad y Merched Mydroilyn (HP)
Cymdeithas Hanes Teuluol Ceredigion yn ymweld â'r archifdy (HP & GMcB)
Cymdeithas Hanes Lleol Llandysul yn ymweld â'r archifdy (HP)
Sefydliad y Merched Aberporth (HP)
Dosbarth Hanes Teuluol yn ymweld â'r archifdy (HP)
Cymdeithas Gymraeg Waun Fawr (HP)
Sefydliad y Merched Llanarth yn ymweld â'r archifdy(HP)
Cyfeillion Swyddfa Gofnodion Caerfyrddin yn ymweld â'r archifdy (HP,GR & GMcB)
Cymdeithas Llanon (GmcB)
Cymdeithas yr Henoed Borth (HP)
Clwb i'r Rhai Dan Anfantais Gweledol (HP)
Cynhadledd Flynyddol Cymdeithas yr Archifwyr: 2 daith o gwmpas yr archifdy (GR, GMcB, HP)
Clwb Dydd Iau (HP)
Cyfeillion Swyddfa Archifau Caerfyrddin (HP)
Urdd y Merched Cwm Rheidol (HP)
Merched y Wawr Llanafan (GMcB)
Hanes Emlyn (HP)
Cymdeithas yr Hebog yn ymweld â'r archifdy (GMcB)
Grŵp Treftadaeth Llawysgrifau, CPC, yn ymweld â'r archifdy (HP)
Cymdeithas y Merched Talybont (HP)
A.R.P.050 (HP)
Staff Llyfrgell CPC yn ymweld â'r archifdy (GR)
Dosbarth Hanes Teuluol yn ymweld â'r archifdy (GMcB)
Gwirfoddolwyr yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (HP)
Grŵp Ymchwil Hanesyddol, Prifysgol Llanbedr Pont Steffan – 2 grŵp (HP)
Staff Llyfrgell CPC i ymweld â'r archifdy (GR)

Cyfanswm o 39 sgwrs

Arddangosfeydd yn ystod 2001

''Marwolaeth y Frenhines Fictoria'' (Swyddfa'r Sir)

''Hafod, Pontarfynach a'r ardal'' (Gwesty'r Hafod Arms)
Roedd yr arddangosfa hon yn rhan o ysgol undydd ar yr Hafod a'r ardal o gwmpas)

'200 mlynedd o'r cyfrifiad'

Yr ydym wedi cynhyrchu saith copi o'r arddangosfa hon a fyddai'n cael eu harddangos ar yr un pryd mewn gwahanol leoliadau drwy'r sir er mwyn dweud wrth bobl am hanes y cyfrifiad ac i'w hatgoffa i gymryd rhan yng nghyfrifiad 2001 sydd i'w gynnal ym mis Ebrill.

(Aberystwyth, Swyddfa'r Sir & Neuadd
y Dref, Llyfrgell Aberystwyth.
Llyfrgell Aberteifi.
Neuadd y Dref Aberaeron,
Llyfrgell Llandysul,
Llyfrgell Llanbedr Pont Steffan)

''Etholiadau yng Ngheredigion'' (Swyddfa'r Sir, Aberystwyth)
Arddangosfa fechan i gyd-fynd â'r etholiad ar Fehefin 7fed 2001

''Gwlad y Menig Gwynion? (Land of White Gloves?) Trosedd a chosb yng Ngheredigion'' (Swyddfa'r Sir, Aberystwyth)
Mae'r arddangosfa boblogaidd iawn hon wedi ei chynllunio i gyd-fynd â'r arddangosfa yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ''Gwaed ar eu Dwylo''. Lansiwyd y ddwy arddangosfa i gyd-fynd â Chynhadledd Flynyddol Hanes Cyfreithiol Prydain a gynhaliwyd eleni yn Aberystwyth.

Ysgol Mynach (Ysgol Mynach, Pontarfynach)
Dathlodd yr ysgol ben-blwydd arwyddocaol eleni (mae barn yn amrywio ynglŷn â pha ben-blwydd yr oedd!). Mewn cyswllt ag arddangosfa yr ysgol ei hun paratôdd Glenys hanes yr ysgol gan ddefnyddio detholiadau o lyfrau cofnodion. Arddangoswyd hyn mewn diwrnod agored arbennig ar gyfer dathlu yn yr ysgol ym mis Tachwedd.

''Tywydd Gwyllt y Gaeaf'' (Swyddfa'r Sir, Aberystwyth)
Mae'r arddangosfa bresennol yn ymwneud â'r tywydd cyffrous y mae Ceredigion yn dueddol o'i gael. Gan ddefnyddio adroddiadau papur newydd, lluniau, llyfrau cofnodion ysgolion a dogfennau eraill yr ydym wedi rhoi ynghyd gyfrif dramatig o'r tywydd yn ystod y ddwy ganrif ddiwethaf.

Mae'r erthygl isod gan Gwyneth Roberts. Dathlwyd canmlwyddiant marwolaeth Brenhines Fictoria mewn arddangosfa yn gynnar yn y flwyddyn. Efallai oherwydd y parheir i adnabod ein hadeilad fel y 'Queen's Hotel', ac oherwydd bod cynifer o'r cofnodion a ddefnyddiwn bob dydd o darddiad Fictorianaidd, teimlwn ei bod yn bwysig nodi diwedd y 'Fictoriaid'. Dechreuom ein canrif newydd drwy ffarwelio â'r oes pan anwyd ein tad-cu a mam-gu, oes y teimlwn gysylltiad â hi na fydd cenedlaethau'r dyfodol yn gwneud yn yr un modd.

Marwolaeth y Frenhines Fictoria

Bu'r Frenhines Fictoria farw am 6.30 pm ar Ddydd Mawrth Ionawr 22 1901 yn Nhŷ Osborne ar Ynys Wyth. Dangoswyd cyflymdra y taenwyd y newyddion gan y ffaith bod Maer a Chorfforaeth Aberystwyth wedi derbyn y newyddion drwy delegram a anfonwyd am 6.45 pm a dilynwyd hyn gan fwletin swyddogol am 7.08 pm. Er ein bod yn synnu at gyflymdra'r Rhyngrwyd roedd y chwyldro cyfathrebu a ddigwyddodd yn y 19eg ganrif yr un mor arwyddocaol. Byddai marwolaeth ei rhagflaenydd William IV ym 1837 wedi cymryd wythnosau i gyrraedd rhai o gymunedau mwyaf diarffordd Ceredigion. Hyd yn oed wedyn ychydig o effaith fyddai'r newydd yn cael o'i gymharu â'r sioc a deimlwyd ar farwolaeth gwraig a fu'n teyrnasu am hirach nag unrhyw deyrn arall ac yr oedd ei llun yn hollol gyfarwydd i bawb. Yr ymateb unionsyth i'r newyddion trist oedd hedfan pob baner ar ei hanner, tra taenwyd llenni mewn nifer o dai preifat fel arwydd o barch. Wedyn canslwyd pob adloniant a digwyddiad cyhoeddus a oedd i'w cynnal yn ystod y bythefnos nesaf. Y diwrnod canlynol pasiwyd penderfyniad gan Gyfarfod Misol Bwrdeistref Aberystwyth a geisiodd fynegi eu ''overwhelming sense of the loss sustained by our country by her majesty's removal from her exalted position.' Ymadrodd dwys sydd yn rhoi'r argraff i'r diweddar Frenhines gael ei diorseddi gan '*coup d'etat*' o'r nefoedd.

Ar y Sul canlynol detholwyd testunau'r pregethau yn yr eglwysi a'r capeli i fod yn berthnasol i farwolaeth yr hen Frenhines. Adleisiodd y Parch T.Jones o Benbryn heb amheuaeth deimladau'r cynulleidfaoedd niferus drwy Brydain Fawr pan ddywedodd 'Ychydig iawn sydd yn bresennol yma heddiw sydd yn cofio dyfodiad Ein Rhadlon Fawrhydi i'r orsedd, ac yr ydym mor gyfarwydd â'i phresenoldeb, fel petai, fel ei bod yn anodd sylweddoli ei bod wedi ein gadael. Mae'r adroddiad o'r gwasanaeth yn datgan 'it was astonishing to find the congregations in a remote parish like Penbryn listening with such emotion.'

Er gwaetha'r ffaith bod marwolaeth y Frenhines Fictoria yn weddol sydyn ac annisgwyl roedd yr ymateb iddo yn hynod gyflym.. Erbyn noson yr 22ain o Ionawr roedd rheilffordd y 'Great Western' eisoes wedi rhoi cyfarwyddyd i'w staff mewn iwnifform i wisgo rhwymyn braich du ar y fraich chwith, ychydig uwch ben y penelin. Gofynnwyd i staff nad oeddent yn gwisgo iwnifform i wisgo dillad tywyll neu rwymyn braich gyda band galaru ar eu hetiau a gofynnwyd i bob aelod o staff i wisgo sgarff neu dei du. Mr Evan Jones, cyn aelod o'r Llynges a oedd yn awr

yn wyrcws Aberaeron oedd un o'r ychydig bobl a oedd wedi gweld y diweddar Frenhines. Roedd wedi bod yn archwilio un o'r llongau y bu'n gwasanaethu arni a disgrifiodd hi fel 'menyw dew gyda chroen go dywyll ac yn hynod weithgar a hoffus gyda'r cwmni yr oedd ef yn un ohonynt'. Cyflwynodd Mr Jones hefyd bennill i'w ddarllen allan yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gwarcheidwaid:
...She could not stay the mortal blow,
The rich and great likewise must go,
No one can hold the fleeting breath,
To all alike the goal is death.

Yn Aberteifi roedd clychau galaru distaw eglwys y Santes Fair yn canu'n barhaus ac roedd y *Cardigan and Tivyside Advertiser* ymron yn ymosodol yn ei awydd i brotestio nad oedd unrhyw fwrdeistref arall yn galaru cymaint:
'In Cardigan and district the grief is profound, as it is only natural it should be.
In many places perhaps the outward signs of mourning may be more marked, but nowhere, we venture to predict is the aged sovereign s loss more felt or her memory more cherished than in Cardigan'

Parhaodd y papur newydd ar nodyn celtaidd iawn gan atgoffa'i ddarllenwyr o'r dywediad adnabyddus o eiddo'r Derwyddon 'pan fo carreg yn syrthio yng Nghôr y Cewri felly hefyd byddai teyrn yn marw'. Ar Ddydd Sul Rhagfyr 30ain roedd dwy garreg a oedd yn ffurfio'r cromlechi yng Nghôr y Cewri wedi syrthio. Roedd y Frenhines hefyd yn credu y byddai'n marw ym mis Ionawr. Roedd yr ysgrifennydd hefyd yn gwneud ymgais ddewr i brofi bod Ionawr yn fis anlwcus i'r teulu Brenhinol ond roedd y ffeithiau yn ei erbyn:
...Bu Ionawr yn fis anffodus iawn i'r teulu Brenhinol, er nid mor anffodus ag y mae pobl yn credu. Mae'n wir y bu'r Tywysog Henry o Battenberg farw ym mis Ionawr fel y bu i Ddug Clarence ond bu'r Tywysog Cydweddog farw ym mis Rhagfyr a bu dug Albany farw ym mis Mawrth. Ym mis Ionawr fodd bynnag y bu farw tad y frenhines, sef Dug Caint. Chwe diwrnod yn ddiweddarach bu farw ei dad, Siôr 111. Ond dyma'r unig enghreifftiau y medrir eu cofnodi.' Nid oedd y galaru heb ddadleuon. Yn Aberystwyth amharwyd ar y difrifwch gan weithgareddau myfyrwyr gwrywaidd y coleg yn ystod seremoni cyhoeddi Edward VII yn frenin; ni ystyriai'r myfyrwyr hyn y sefyllfa hon yn un ddifrifol a manteisiont ar y cyfle i arddangos eu talent am ffwlbri .....gan floeddio cymeradwyaeth, bwio a chanu rhai o ganeuon mwyaf disynnwyr y coleg, am yn ail.'

Er waethaf castiau'r myfyrwyr mae'n eglur oddi wrth yr hanes yn y papurau lleol bod Ceredigion, ynghyd â gweddill Prydain, yn ymdopi i ddod i delerau â nid yn unig canrif newydd ond yn hefyd colli Brenhines a fu'n dominyddu bywyd cyhoeddus am chwe deg tri o flynyddoedd. Fel y dywedodd Mr T.Colby mewn cyfarfod Bwrdd y Gwarcheidwaid yn Aberystwyth, 'byddent i gyd yn teimlo gwagle sylweddol yn sgil y newid.'



Home Office.
Whitehall.
14th Feb. 1901

Sir

I am commanded by the King to convey to you hereby His Majesty's thanks for the Loyal and Dutiful Address of the Mayor Aldermen & Burgesses of the Borough of Cardigan expressing their sympathy with His Majesty and the Royal Family on the occasion of the lamented death of Her late Majesty Queen Victoria.

I am,
Sir,
Your obedient Servant,
Geo. S. Ritchie

The Mayor
of the Borough
of Cardigan